# Ysgol Hafan y Môr

## Polisi Chwythu'r Chwiban

| | |
|---|---|
| Cyngor Sir Penfro | Rhif Rheoli Dogfennau: 025 |
| | Tudalen 1 o 8 |
| Polisi Chwythu'r Chwiban | Cyhoeddwyd: Cyhoeddwyd gyntaf Gorffennaf 1999 |
| | Diwygiwyd: Hydref 2021 |
| | Adolygwyd: Ebrill > Mehefin 2018 |

## 1. Trosolwg

1.1 Mae'r polisi hwn yn amlinellu'r hyn y dylech ei wneud os ydych yn amau bod rhywbeth sy'n digwydd yn y gwaith yn eich rhoi chi neu eraill mewn perygl, neu'n anghyfreithlon neu'n anfoesegol.

1.2 Y nod yw rhoi sicrwydd i gyflogeion y gallant godi pryderon am ymddygiad anfoesegol heb ofni erledigaeth, gwahaniaethu wedi hynny neu anfantais.

1.3 Mae'n berthnasol i bob cyflogai, contractiwr, ymgynghorydd, swyddog, a gweithiwr achlysurol ac asiantaeth.

## 2. Beth yw chwythu'r chwiban?

2.1 Ein nod yw cynnal y safonau gonestrwydd uchaf ym mhopeth a wnawn, ond gall ymddygiad sy'n beryglus, yn erbyn y gyfraith neu sy'n torri codau moesegol neu broffesiynol effeithio ar bob sefydliad o bryd i'w gilydd. Os oes gennych bryderon o'r fath, rydym yn eich annog i roi gwybod amdanynt ar unwaith — gelwir hyn yn 'chwythu'r chwiban'. Gallwn roi sicrwydd i chi y byddwn yn cymryd eich pryderon o ddifrif, byddant yn destun ymchwiliad trylwyr, a gallwch fod yn hyderus na fydd unrhyw ddial.

2.2 Mae'r mathau o bryderon y gallech fod am eu codi drwy chwythu'r chwiban yn cynnwys:

- unrhyw weithgaredd yr ydych yn amau ei fod yn droseddol
- unrhyw weithgaredd yr ydych yn amau sy'n peryglu iechyd a diogelwch
- unrhyw weithgaredd yr ydych yn amau a allai niweidio'r amgylchedd
- unrhyw weithgaredd yr ydych yn amau ei fod yn gamweinyddiad cyfiawnder
- unrhyw weithgaredd yr ydych yn amau sy'n torri ein polisi ar lwgrwobrwyo a llygredd
- unrhyw achos o fethu â chydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol neu reoliadol
- unrhyw achos o fethu â bodloni gofynion proffesiynol
- unrhyw ymgais i guddio un neu fwy o'r gweithgareddau hyn.

Does dim angen i chi brofi bod y pryder yr ydych chi'n ei godi wedi digwydd neu'n debygol o ddigwydd; bydd amheuaeth resymol yn ddigonol. Siaradwch ag un o'r bobl benodol a restrir os nad ydych yn siŵr a yw rhywbeth yr ydych wedi dod yn ymwybodol ohono'n berthnasol i'r polisi hwn.

Sylwer nad yw'r polisi hwn yn cynnwys unrhyw beth sy'n ymwneud â chi'n bersonol — sut mae pobl eraill yn eich trin, er enghraifft. Ar gyfer hyn, cyfeiriwch at ein polisïau ar fwlio ac aflonyddu ac yna at ein gweithdrefn gwyno i gael arweiniad ar sut i fwrw ymlaen yn ein Llawlyfr i Weithwyr. Mae'r weithdrefn chwythu'r chwiban hon yn ymwneud yn bennaf â phryderon lle mae buddiannau pobl eraill neu'r awdurdod hwn mewn perygl.

**Commented [HR1]:** This part of the sentence doesn't make much sense in the English version. Tried to make sense of it in the Welsh but I might be wrong. If there are any problems, please let us know.

## 3. Sut i godi pryder chwythu'r chwiban

Er mwyn i'ch pryder gael ei ddiogelu, dylech ei gyflwyno yn y ffordd gywir.

3.1 Fel cam cyntaf, dylech fel arfer godi pryderon gyda'ch rheolwr uniongyrchol neu'ch Pennaeth Gwasanaeth. Os ydych yn gweithio mewn ysgol, gallwch gysylltu â'r pennaeth, cadeirydd y llywodraethwyr, neu'r llywodraethwr a enwebwyd ar gyfer chwythu'r chwiban. Dylai cynghorwyr godi pryderon gyda'r Swyddog Monitro. Fodd bynnag, mae hyn yn dibynnu ar ddifrifoldeb a sensitifrwydd y materion dan sylw a phwy sy'n cael ei amau o gamarfer.

3.2 Os na allwch siarad â'ch rheolwr llinell neu Bennaeth Gwasanaeth, cyflwynwch eich pryder yn ysgrifenedig neu dros y ffôn neu trefnwch gyfarfod ag un o'r unigolion canlynol a elwir yn '**berson penodol'** at ddibenion chwythu'r chwiban, ac sy'n gallu derbyn eich mater o bryder a rhoi cyngor ac arweiniad ar y weithdrefn:

- Catherine Evans, Prif Swyddog Adnoddau Dynol, 01437 775745 Cathy.Evans@pembrokeshire.gov.uk
- Jon Haswell, Cyfarwyddwr Adnoddau, 01437 775839 Jon.Haswell@pembrokeshire.gov.uk
- Rhian Young, Swyddog Monitro Dros Dro, 01437 776564 Rhian.Young@pembrokshire.gov.uk

3.3 Os yw'r pryder yn ymwneud â **mater diogelu am blentyn**, rhaid trafod â **Thîm Asesu Gofal Plant** yr awdurdod a **gofyn am y**

**rheolwr ar ddyletswydd ar 01437 776444** neu'r **Tîm Allan o Oriau ar 0300 333 2222** os codir y pryder y tu allan i oriau gwaith arferol. E-bost: CCAT@pembrokeshire.gov.uk.

Os yw'r pryder yn ymwneud â **mater diogelu am oedolyn,** rhaid i chi gysylltu â **Thîm Diogelu Oedolion** yr awdurdod **ar 01437 776056** neu'r **Tîm Allan o Oriau ar 0300 333 2222** os codir y pryder y tu allan i oriau gwaith arferol. E-bost: Adult.Protection.Team@pembrokeshire.gov.uk.

Os oes gennych bryder diogelu sy'n ymwneud â chydweithiwr, naill ai yn y gwaith neu yn ei fywyd personol, a allai achosi niwed i blentyn neu oedolyn, eich cyfrifoldeb statudol chi yw gweithredu ar y pryderon hynny drwy gysylltu â'r Tîm Asesu Gofal Plant neu'r Tîm Diogelu Oedolion. Yn achos argyfwng, dylech ffonio 999 ar unwaith.

3.4 Ar gyfer pob pryder, os ydych yn aelod o undeb llafur, gallwch gysylltu â chynrychiolydd eich cangen neu'ch swyddfa ranbarthol, y gallwch ei gwahodd i godi mater ar eich rhan.

3.5 Gallwch gysylltu â'r tîm Cynghori Adnoddau Dynol yn uniongyrchol.

3.6 Dylai eich llythyr ddweud eich bod yn codi eich pryderon o dan y polisi hwn, a dylech gynnwys:

i. cefndir a hanes y pryder (gan roi ffeithiau allweddol perthnasol, enwau'r bobl dan sylw, dyddiadau a lleoedd);

ii. y rheswm pam yr ydych yn benodol bryderus am y sefyllfa.

## 4. Sut y bydd yr awdurdod yn ymateb

4.1 Bydd aelod o'r tîm Cynghori Adnoddau Dynol, sydd wedi cael hyfforddiant mewn gweithdrefnau chwythu'r chwiban, ynghyd â'r rheolwr priodol, yn eich gwahodd i gyfarfod i drafod eich pryderon, ac mae gennych hawl i gael cydweithiwr neu gynrychiolydd undeb llafur gyda chi yn y cyfarfod ac unrhyw gyfarfodydd dilynol. Os byddwch yn dod â chydymaith, rhaid i'r ddau ohonoch gytuno i gadw eich datgeliadau'n gyfrinachol cyn ac ar ôl y cyfarfod ac yn ystod unrhyw ymchwiliad a allai ddilyn.

Ni ddylai fod unrhyw oedi *i'r gwahoddiad* i gyfarfod y tu hwnt i 7 diwrnod calendr o dderbyn eich mater o bryder.

4.2 Ar ôl y cyfarfod cychwynnol, byddwn yn ymchwilio i'ch pryderon ac efallai y byddwn yn gofyn i chi ddod i gyfarfodydd pellach. Er mwyn ymchwilio'n briodol, efallai y byddwn yn cynnwys arbenigwyr sydd â

gwybodaeth neu brofiad penodol o'r materion yr ydych wedi'u codi. Fel rhan o'r broses hon, bydd ‘cylch gorchwyl’ yn cael ei lunio a chytunir ar amserlen.

4.3 Byddwch yn cael gwybod sut mae ein hymchwiliadau'n mynd rhagddynt a pha mor hir y maent yn debygol o gymryd; cytunir ar sut a phryd y byddwn yn rhoi'r diweddaraf i chi yn ystod y cyfarfod cyntaf. Fodd bynnag, weithiau efallai na fyddwn yn gallu rhoi manylion i chi am yr ymchwiliad (neu unrhyw gamau y mae'n arwain atynt) gan fod angen i ni ddiogelu cyfrinachedd. Rydym yn deall y gallai hyn fod yn rhwystredig a'ch pryderu ynghylch a ydym wedi gwneud unrhyw beth mewn gwirionedd, ac os bydd hyn yn digwydd byddwn yn gwneud ein gorau i egluro pam yr ydym yn gweithredu fel hyn.

4.4 Ymdrinnir â'ch pryderon yn deg, ond ni allwn warantu y bydd canlyniad ein hymchwiliadau y canlyniad yr hoffech ei gael. Os nad ydych yn fodlon â sut rydym wedi cynnal yr ymchwiliadau, gallwch fynd â'r mater i un o'n cyfarwyddwyr i'w ystyried ymhellach.

4.5 Yn achos honiad yn erbyn aelod etholedig, yna caiff y mater ei ystyried, yn y lle cyntaf, gan y Swyddog Monitro neu'r Prif Weithredwr, a all gyfeirio'r mater at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (os yw'n briodol).

4.6 Fel arfer, bydd pryderon neu honiadau sy'n dod o fewn cwmpas gweithdrefnau penodol (er enghraifft, materion amddiffyn plant neu wahaniaethu) yn cael eu cyfeirio i'w hystyried o dan y gweithdrefnau hynny.

4.7 Ni fydd yr awdurdod yn goddef unrhyw aflonyddu nac erledigaeth o'r rhai sydd wedi ‘chwythu'r chwiban’, gan gynnwys pwysau anffurfiol, a bydd yn trin hyn fel trosedd ddisgyblu ddifrifol yr ymdrinnir â hi o dan y rheolau a gweithdrefnau disgyblu perthnasol. Os ydych yn destun unrhyw driniaeth niweidiol o ganlyniad i ‘chwythu'r chwiban’, dylid ei godi ar unwaith gyda'r rheolwr llinell fel y gellir ymchwilio'n drylwyr i'r mater heb oedi diangen.

## 5. Cyfrinachedd ac anhysbysrwydd

5.1 Mae gwahaniaeth sylweddol rhwng dymuno cadw eich pryderon yn gyfrinachol a gwneud datgeliad yn ddienw. Rydym yn annog pobl i beidio â chwythu'r chwiban yn ddienw.

5.2 Fe'ch anogir bob amser i godi pryderon yn agored, ac os yw'n well gennych wneud hynny'n gyfrinachol, byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau bod eich hunaniaeth yn parhau i fod yn gudd. Efallai y byddwn am ddatgelu pwy ydych chi i bobl sy'n rhan o'r ymchwiliad, ond byddwn bob amser yn trafod hyn gyda chi yn gyntaf.

5.3 Rydych wedi'ch diogelu rhag dial o dan y polisi hwn (gweler paragraff 4.7), ond os ydych yn dal i boeni, rydym yn eich annog i drafod hyn gyda ni a byddwn yn archwilio i ba raddau y gallwn gadw eich pryderon yn gyfrinachol.

5.4 Os ydych yn ystyried mynegi eich pryder yn ddienw, ailystyriwch, gan fod pryderon o'r fath yn llawer llai pwerus ac yn gyffredinol mae'n anodd eu cadarnhau. Hefyd os nad oes neb yn gwybod pwy ddarparodd y wybodaeth, nid yw'n bosib rhoi sicrwydd i chi, na'ch diogelu. Os, ar ôl cymryd y cyngor angenrheidiol (gweler Adran 8), nad ydych am roi eich enw i'r datgeliad, gan wahardd unrhyw ddewis arall, yna dylech wneud hynny'n ddienw. Pan fydd tystiolaeth ar gael i gadarnhau honiad, ymchwilir i bryder o'r fath.

## 6. Sut y gellir mynd â'r mater y tu allan i'r awdurdod

Bwriad y polisi hwn yw rhoi llwybr i chi o fewn yr awdurdod i godi pryderon. Os ydych yn teimlo ei bod yn iawn mynd â'r mater y tu allan i'r awdurdod mae yna lwybrau penodol yn hynny o beth. Mae'r canlynol yn bwyntiau cyswllt priodol:

- I wneud datgeliad i Archwilydd Cyffredinol Cymru o dan Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998, cysylltwch â'r Swyddog Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd (PIDA) drwy:

  **E-bost:** chwythu.chwiban@archwilio.cymru

  **Ffôn:** 029 20 320 522

  Chwythu'r Chwiban Archwilio Cymru

- Yr heddlu
- **Unigolion a chyrff rhagnodedig allanol:** Mae'r ddolen atodedig yn rhoi rhestr o'r bobl a chyrff rhagnodedig y gallwch gyflwyno datgeliad iddynt. Os byddwch yn penderfynu chwythu'r chwiban i berson rhagnodedig ar wahân i'ch cyflogwr, rhaid i chi sicrhau eich bod wedi dewis y person neu gorff cywir ar gyfer eich mater. Gellir gweld y rhestr o unigolion rhagnodedig drwy'r ddolen we hon: blowing-the-whistle-to-a-prescribed-person.pdf

## 7. Honiadau anwir / camddefnyddio'r weithdrefn

Mae'r rhan fwyaf o bryderon yn cael eu codi gyda ni'n ddidwyll, ond weithiau mae rhywun yn gwneud honiad ffug allan o falais neu am ei fod yn credu bod ganddo rywbeth i'w ennill. Bydd unrhyw un sy'n gwneud hyn yn wynebu camau gweithredu o dan ein polisi disgyblu a gall gael ei ddisgyblu am gamymddwyn, neu hyd yn oed ei ddiswyddo am gamymddwyn difrifol.

## 8. Cyngor annibynnol ar wneud datgeliad

Os ydych yn ystyried gwneud datgeliad ond ddim yn siŵr beth yw eich hawliau cyfreithiol, dylech ystyried ceisio cyngor annibynnol. Mae nifer o lwybrau drwy nifer o wahanol asiantaethau allanol:

- **Undeb llafur**: ni waeth pa undeb llafur yr ydych yn aelod ohoni, y cyngor cyffredinol fyddai i chi ofyn am gyngor a chynnwys y gangen leol a'r swyddfa ranbarthol cyn gwneud unrhyw ddatgeliad.
  Canllawiau UNSAIN ar chwythu'r chwiban

- **Protect**: elusen chwythu'r chwiban sy'n cynnig cyngor cyfrinachol am ddim i bobl sy'n ansicr a ddylid codi pryder chwythu'r chwiban yn y gwaith ai peidio. (A elwyd yn Bryder Cyhoeddus yn y Gwaith gynt.)
  Mae nifer o astudiaethau achos chwythu'r chwiban ar y wefan hon sy'n dangos y mathau o gamarfer y mae pobl sy'n chwythu'r chwiban yn poeni amdanynt: Protect
  Rheolir Llinell Gyngor Chwythu'r Chwiban yr elusen gan gyfreithwyr: **020 3117 2520**

- Mae **llinell gymorth chwythu'r chwiban y GIG** ar gael i staff gofal cymdeithasol. Mae speakup.direct, y llinell gymorth chwythu'r chwiban, ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener 8am i 6pm: **08000 724 725.** Gallwch gysylltu â'r llinell gymorth os oes gennych bryderon ac os ydych yn ansicr sut i'w codi neu os ydych am gael cyngor ar arfer gorau ym maes diogelu.

## 9. Hyrwyddwyr Chwythu'r Chwiban

Mae'r awdurdod wedi penodi dau hyrwyddwr chwythu'r chwiban i godi proffil, hyrwyddo ymwybyddiaeth, a sicrhau bod y polisi'n cael ei lywodraethu'n briodol.

Y Cynghorydd Vivien Stoddart
Cllr.Vivien.Stoddart@pembrokeshire.gov.uk
Cathyrn Davies, Rheolwr AD ar gyfer Addysg a Diogelu
Cathyrn.Davies@pembrokeshire.gov.uk

Os oes gennych farn ar sut y gellid gwella'r polisi, byddent yn falch o gael eich adborth.

## 10. Nodyn atgoffa terfynol – pethau i'w gwneud a pheidio â'u gwneud

**Pethau i'w gwneud**

- Gwneud nodyn ar unwaith o'ch pryderon (h.y. amseroedd, dyddiadau, tystion).
- Cyfleu eich amheuon i rywun sydd ag awdurdod a phrofiad priodol.
- Ymdrin â'r mater yn brydlon.
- Gofyn am gyngor gan reolwyr a/neu undeb llafur cydnabyddedig.

**Pethau i beidio â'u gwneud**

- Peidio â gwneud dim.
- Bod ofn codi eich pryderon.
- Mynd at neu gyhuddo unrhyw unigolion yn uniongyrchol.
- Ceisio ymchwilio i'r mater eich hun.
- Cyfleu eich amheuon i unrhyw un heblaw'r rhai sydd ag awdurdod priodol.

Dylid darllen y cod ar y cyd â Strategaeth Gwrth-dwyll, Llygredd a Llwgrwobrwyo 2015-17 a'r Cod Ymddygiad yn y Llawlyfr i Weithwyr.

Mae pecyn e-ddysgu Chwythu'r Chwiban ar gael ar gronfa ddysgu Sir Benfro y mae'n ofynnol i bob gweithiwr ei gwblhau.